

Teitl y Swydd: Cymrawd Ymchwil – Rhwydwaith Ymchwil Cardiofasgwlaidd Cenedlaethol

Uned/Ysgol: Ysgol Chwaraeon a Gwyddorau Iechyd Caerdydd,

Gradd: 7A/B

HERA: CSSHS222

Prif bwrpas y rôl

Wedi'i ariannu gan Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru, mae'r Rhwydwaith Ymchwil Cardiofasgwlaidd Cenedlaethol (NCRN) yn gydweithrediad rhyngddisgyblaethol arloesol sy'n cysylltu academyddion, clinigwyr, gweithwyr iechyd proffesiynol, diwydiant ac elusennau, gyda'r genhadaeth o yrru rhagoriaeth a chapasiti ymchwil cardiofasgwlaidd ledled Cymru.

Nod rhaglen Gymrodoriaeth NCRN yw cefnogi a datblygu ymchwilwyr cardiofasgwlaidd rhagorol i'w galluogi i wneud cais llwyddiannus am gyfleoedd ariannu allanol, ac i feithrin a datblygu arweinwyr y dyfodol mewn ymchwil cardiofasgwlaidd. Bydd y Cymrawd llwyddiannus yn cynnal rhaglen o waith ymchwil cardiofasgwlaidd fel rhan o'r NCRN. Y disgwyl yw, erbyn diwedd eu dyfarniad Gymrodoriaeth NCRN, y bydd deiliaid yn sicrhau gymrodoriaeth gystadleuol a adolygir gan gymheiriaid neu gyllid allanol arall.

Bydd gan ymgeiswyr llwyddiannus hanes blaenorol o ymchwil neu brofiad cysylltiedig, a sut i'w gyfathrebu, mewn pwnc cardiofasgwlaidd. Bydd angen i ddeiliaid y swyddi hefyd allu gweithio'n annibynnol yn ogystal ag mewn cydweithrediad gweithredol â phartneriaid amlddisgyblaethol.

Cyfrifoldebau a chyfraniadau allweddol

- Cynllunio, cydlynu a gweithredu rhaglen o ymchwil wreiddiol arloesol i fynd i'r afael â chwestiynau sy'n ymwneud â themâu ymchwil yr NCRN, mewn cysylltiad â'r prif ymchwilwyr a chydweithwyr eraill yn y grŵp ymchwil.
- Chwarae rhan arwyddocaol yng ngweithrediad yr agenda ymchwil gyfredol a chael y creadigrwydd a'r menter i ddatblygu syniadau newydd yn annibynnol a darparu'r egni deallusol a'r meddwl annibynnol sy'n angenrheidiol i gyflawni'r ymchwil.
- Rheoli cymhwyso egwyddorion rheoleiddio a moesegol perthnasol, gan gynnwys unrhyw weithdrefnau moeseg a llywodraethu sy'n berthnasol i'r prosiect.
- Asesu, dehongli a gwerthuso canlyniadau ymchwil.
- Cyfleu syniadau ymchwil cymhleth a chanfyddiadau ymchwil gan ddefnyddio sgiliau lefel uchel ac amrywiaeth o gyfryngau, gan gynnwys ysgrifennu papurau gwyddonol (e.e. cyhoeddiadau a adolygwyd gan gymheiriaid) a chyflwyno canlyniadau ymchwil mewn cyfarfodydd mewnol, cenedlaethol a rhyngwladol.

- Gweithio gyda rhanddeiliaid prifysgol a phartneriaid ehangach yr NCRN i nodi ffynonellau cyllid ymchwil allanol ac arwain y broses o sicrhau cyllid.
- Bod yn wybodus am y llenyddiaeth wyddonol sy'n ymwneud â'r prosiect a monitro datblygiadau newydd yn y maes astudio
- Gweithio ar y cyd i ddatblygu rhwydwaith ymchwil allanol sy'n cynnwys cydweithwyr a sefydliadau cenedlaethol a rhyngwladol.
- Paratoi adroddiadau cynnydd penodol i'r prosiect ar yr ymchwil yn ôl gofynion y cyllidwr (Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru) at ddibenion adolygu.
- Gweithredu fel aelod cyfrifol o'r tîm, gan arwain lle cytunwyd, a datblygu perthnasoedd gwaith cynhyrchiol gydag aelodau eraill o staff.

Manyleb person

Cymwysterau hanfodol / Aelodaethau proffesiynol

- Gradd anrhydedd dda, mewn maes pwnc perthnasol
- Gradd meistr neu hyfforddiant/profiad cyfatebol

Profiad, gwybodaeth a sgiliau hanfodol

1. Lefel dda o wybodaeth am strwythur a swyddogaeth cardiofasgwlaidd mewn bodau dynol.
2. Dealltwriaeth gadarn o ymchwil/arloesi a gweithgaredd ysgolheigaidd.
3. Gwybodaeth am y broses ymgeisio am grantiau a ffynonellau ariannu priodol ar gyfer ymchwil cardiofasgwlaidd
4. Y gallu i ddatblygu, cynllunio a rheoli eich prosiectau ymchwil academiaidd eich hun a rheoli adnoddau'n effeithiol.
5. Y gallu i gyfrannu syniadau ar gyfer prosiectau ymchwil newydd a chreu incwm ymchwil, gan gynnwys cyfrannu at y broses o sicrhau arian.
6. Gwybodaeth am dechnegau dadansoddi ystadegol ar gyfer ymchwil biofeddygol, labordy a/neu lefel poblogaeth
7. Y gallu i ddefnyddio dulliau priodol i gyfleu gwybodaeth gymhleth yn glir, gan gynnwys ysgrifennu cyhoeddiadau i ledaenu canfyddiadau a cheisiadau am grantiau
8. Y gallu i ddatblygu a chynnal perthnasoedd â phartneriaid allanol cenedlaethol a rhyngwladol
9. Profiad o gynnal ymchwil cardiofasgwlaidd

10. Profiad o weithio ar brosiectau/timau amlddisgyblaethol a synthesis gwahanol fathau o dystiolaeth
11. Profiad o gyfrannu at gyhoeddiadau o ansawdd uchel a/neu gyfnodolion a adolygwyd gan gymheiriaid.
12. Profiad o gyflwyno neu sicrhau arian/incwm drwy amrywiaeth o ffynonellau (e.e. grantiau/diwydiant)

Dymunol

1. Profiad o sefydlu a rhedeg astudiaethau a/neu dreialon clinigol
2. Doethuriaeth mewn maes perthnasol (e.e. ffisioleg, gwyddoniaeth fiofeddygol, peirianeg fiofeddygol, gwyddoniaeth feddygol neu ddelweddu meddygol)
3. Record gyhoeddi cryf mewn cyhoeddiadau/cyfnodolion perthnasol o ansawdd uchel sydd wedi'u hadolygu gan gymheiriaid

Gofynion sgiliau Cymraeg

Mae'r Gymraeg yn hanfodol i'n myfyrwyr a'n staff ac mae'n rhan allweddol o'n darpariaeth a'n gwasanaethau. Ar gyfer pob swydd ym Met Caerdydd, mae hyfedredd yn y Gymraeg naill ai'n hanfodol neu'n ddymunol. Gallwch ddod o hyd i wybodaeth am y lefelau drwy edrych ar ein llyfryn: [Lefelau sgiliau iaith Gymraeg](#). Os yw sgil wedi'i rhestru fel un hanfodol yn y tabl isod, gwnewch yn siŵr eich bod yn dangos hyn yn eich ffurflen gais ar-lein.

Lefel iaith a disgrifiwr cyffredinol	Gwrando	Darllen	Siarad	Ysgrifennu
A1 – Dechreuwr Yn gallu deall a defnyddio dywediadau cyfarwydd bob dydd ac ymadroddion sylfaenol iawn yn y Gymraeg.	Dymunol	Dymunol	Dymunol	Dymunol
A2 - Defnyddiwr sylfaenol Yn gallu delio â gwybodaeth gyffredin a syml a chyfathrebu mewn Cymraeg sylfaenol.				
B1 - Defnyddiwr canolradd Yn gallu cyfathrebu, i lefel gyfyngedig, yn Gymraeg am bethau sy'n gyfarwydd a/neu'n gysylltiedig â gwaith.				
B2 - Defnyddiwr canolradd uwch				



Yn gallu mynegi fy hun yn y Gymraeg ystod o bynciau a deall y rhan fwyaf o sgwrs â siaradwr brodorol.				
C1 - Defnyddiwr rhugl Yn gallu cyfathrebu'n rhugl yn Gymraeg.				
C2 - Meistrolaeth Yn gallu cyfathrebu'n rhugl ar faterion cymhleth ac arbenigol yn y Gymraeg.				

Gofynion y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd

Nid oes angen gwiriad DBS ar gyfer y swydd hon.

Gwybodaeth ategol

Mae'r Brifysgol yn sefydliad deinamig ac efallai y bydd angen newidiadau o bryd i'w gilydd. Ni fwriedir i'r disgrifiad swydd a'r manyleb person hwn fod yn gynhwysfawr.

Mae'r Brifysgol wedi ymrwymo i'r safonau ymddygiad moesegol a phroffesiynol uchaf. Felly, disgwylir i bob gweithiwr roi sylw dyledus i effaith eu hymddygiad personol ar y Brifysgol, myfyrwyr, cydweithwyr, rhanddeiliaid busnes a'n cymuned. Rhaid i bob gweithiwr ddangos ei fod yn cydymffurfio â'n Cod Ymddygiad Proffesiynol. Yn ogystal, dylai pob gweithiwr roi sylw arbennig i'w cyfrifoldebau o dan bolisiâu a gweithdrefnau Prifysgol Metropolitan Caerdydd.